

2025 Rhif (LIC25-52)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Pont-y-pŵl, Torfaen, i
Gyffordd Little Mill, Sir Fynwy)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2025

Gwnaed 22 Medi 2025

Yn dod i rym 29 Medi 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Pont-y-pŵl, Torfaen i Gyffordd Little Mill, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Medi 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2025 No. (WG25-52)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A4042 Trunk Road (Pontypool
Roundabout, Torfaen, to Little Mill
Junction, Monmouthshire)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2025

Made 22 September 2025

Coming into force 29 September 2025

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4042 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Pontypool Roundabout, Torfaen, to Little Mill Junction, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2025 and this Order comes into force on 29 September 2025.

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road;

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 29 Medi 2025 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig;

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn hwnnw o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol prif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 15 metr i’r de-orllewin o ganolbwynt Cyffordd Little Mill â’r A472, gan gynnwys y gerbyttfordd tua’r gogledd a’r gerbyttfordd tua’r de yn ogystal â cherbyttfyrdd cylchredol Cylchfan Court Farm a Chylchfan Mamheilad.

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Medi 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 29 September 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works have been removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road that extends from its junction with main circulatory carriageway of Pontypool Roundabout to a point 15 metres southwest of the centre point of the A472 Little Mill Junction, to include the northbound and southbound carriageways and to include the circulatory carriageways of Mamhilad and Court Farm Roundabouts.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

22 September 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Transport
Welsh Government